



# Cynllun Iaith Gymraeg

Paratowyd yn unol â  
Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

## Cyd-destun

Mae'r Cynllun Iaith Gymraeg hwn (y Cynllun) wedi cael ei baratoi yn unol ag Adran 21(3) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Mae Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi (Arolygiaeth Prawf EM) wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd yn trin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg yn gydradd wrth gyflawni ei harolygiadau yng Nghymru. Mae'r Cynllun hwn yn amlinellu sut y bydd Arolygiaeth Prawf EM yn rhoi'r egwyddor honno ar waith wrth roi gwybodaeth i'r cyhoedd yng Nghymru neu wrth gysylltu â nhw.

Mae'r Cynllun hwn wedi cael ei fabwysiadu gan Arolygiaeth Prawf EM, ac fe'i cymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar **04/05/2011**. Mae'n dilyn adolygiad o Gynllun Iaith Gymraeg blaenorol Arolygiaeth Prawf EM, a gymeradwywyd gan y Bwrdd ar 8 Mehefin 2007.



  
BWRDD YR IAITH  
GYMRAEG • WELSH  
LANGUAGE BOARD

# Cynnwys

	Tudalen
Cyd-destun	2
Cynnwys	3
Cyflwyniad	4
1. EGWYDDORION CYFFREDINOL	5
2. CYNLLUN AROLYGIAETH PRAWF EI MAWRHYDI	6
3. RHOI'R CYNLLUN AR WAITH	7
4. WYNEB CYHOEDDUS AROLYGIAETH PRAWF EI MAWRHYDI	9
5. RHOI CYHOEDDUSRWYDD I'R CYNLLUN	11
6. MONITRO AC ADOLYGU'R CYNLLUN	12
7. CWYNION	13
8. AMSERLEN AR GYFER GWEITHREDU	14
Atodiad A	15

## Cyflwyniad

Mae'r Cynllun hwn yn amlinellu sut y bydd Arolygiaeth Prawf EM yn gweithredu'r egwyddor a sefydlwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, sef y dylid trin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg yn gydradd wrth gyflawni busnes cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r Cynllun wedi'i anelu at y cyhoedd yn gyffredinol, ac yn benodol at yr adrannau o'r cyhoedd sy'n ymwneud â'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr, Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, Cwmnïau adsefydlu Cymunedol neu Dimau Troseddwyr Ifanc. Gallai hyn gynnwys unigolion sydd dan oruchwyliaeth, rhieni/gofalwyr a dioddefwyr, yn ogystal ag asiantaethau statudol a gwirfoddol sy'n gweithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr a Thimau Troseddwyr Ifanc.

### Arolygiaeth Prawf EM – Datganiad o Ddiben

Mae Arolygiaeth Prawf EM yn Arolygiaeth annibynnol a ariennir gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae'n adrodd yn uniongyrchol i'r Ysgrifennydd Gwladol.

#### Ein diben yw:

- adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol am effeithiolrwydd gwaith gyda throseddwyr unigol, plant a phobl ifanc sydd â'r nod o ostwng lefelau aildroseddu ac amddiffyn y cyhoedd, pwy bynnag sy'n gwneud y gwaith hwn ar ran y Weinyddiaeth Cyfiawnder
- adrodd am effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer y gwaith hwn, gan weithio gydag Arolygiaethau eraill yn ôl yr angen
- cyfrannu at berfformiad gwell gan y sefydliadau y byddwn yn eu harolygu
- cyfrannu at bolisiau cadarn a darparu gwasanaeth effeithiol, yn enwedig wrth amddiffyn y cyhoedd, drwy roi cyngor a lledaenu arferion da, ar sail canfyddiadau arolygiadau, i Weinidogion, swyddogion, rheolwyr ac ymarferwyr
- mynd ati'n frwd i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a materion amrywiaeth ehangach, yn enwedig yn y sefydliadau y byddwn yn eu harolygu
- cyfrannu at effeithiolrwydd cyffredinol y System Cyfiawnder Troseddol, yn arbennig drwy gydweithio ag Arolygiaethau eraill.

# 1 EGWYDDORION CYFFREDINOL

## **Egwyddor cydraddoldeb**

- 1.1 Wrth arolygu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, mae Arolygiaeth Prawf EM yn ymrwymo i'r egwyddor y byddwn yn trin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg yn gydradd. Mae hyn yn berthnasol i'r gwasanaethau arolygu y byddwn yn eu darparu ein hunain, ac i'r rheini sy'n cael eu darparu gan eraill ar ein rhan.

## **Safon arolygiadau**

- 1.2 Rydym wedi ymrwymo i gyflawni arolygiadau o'r un safon uchel p'un ai a ydynt yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Rydym wedi buddsoddi'n sylweddol mewn prosesau sicrhau ansawdd, a byddwn yn monitro pa mor dda yr ydym yn cynnal ein harolygiadau.

## **Cynllunio ein harolygiadau**

- 1.3 Wrth gynllunio ein harolygiadau yng Nghymru, byddwn yn sicrhau:
  - y rhoddir sylw i'r iaith Gymraeg ac i ddiwylliant Cymru
  - y caiff yr holl ddogfennau ysgrifenedig a fydd ar gael i'r cyhoedd eu cyhoeddi yn y Gymraeg a'r Saesneg
  - y byddwn yn hyrwyddo ac yn hwyluso defnyddio'r Gymraeg pryd bynnag y bydd hynny'n ymarferol.

## **Polisiau, gweithdrefnau a phrosesau arolygu newydd**

- 1.4 Pan fyddwn yn ffurfio polisiau, gweithdrefnau a phrosesau arolygu newydd sy'n berthnasol i'n gwaith yng Nghymru, byddwn yn sicrhau bod dimensiwn yr iaith Gymraeg wedi cael ei asesu yn unol â'r egwyddorion yn y Cynllun hwn.
- 1.5 Ni fydd Arolygiaeth Prawf EM yn newid y Cynllun heb i Fwrdd yr Iaith Gymraeg gymeradwyo hynny ymlaen llaw.

## 2 CYNLLUN AROLYGIAETH PRAWF EI MAWRHYDI

### **Perthynas Arolygiaeth Prawf EM ag Arolygiaethau eraill**

- 2.1 Mae Arolygiaeth Prawf EM yn arwain arolygiadau ar waith prawf a gwaith gyda throseddwr ifanc, a hefyd yn cyfrannu at waith ar y cyd gydag arolygiaethau cyfiawnder troseddol eraill ac arolygiaethau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Pan fydd Arolygiaeth Prawf EM yn gysylltiedig â chydaroelygiadau o'r fath yng Nghymru, byddwn:
- yn sicrhau bod ein Cynllun yn cael ei hyrwyddo ymhlith yr Arolygiaethau eraill, ac yn ceisio'u cydymffurfiaeth yn y mater
  - yn cynorthwyo'r Arolygiaethau eraill i roi'r ymrwymadau sydd yn eu Cynlluniau nhw ar waith.

### **Y broses arolygu**

- 2.2 Mae egwyddorion cydraddoldeb yn ganolog i bob arolygiad a gyflawnir gan Arolygiaeth Prawf EM. Yng Nghymru, rhoddir pwyslais ar ddarparu gwasanaeth dwyieithog sy'n addas ar gyfer y gwaith a arolygir.
- 2.3 Os gwelir bod angen, naill ai ar ôl cael gwybodaeth ymlaen llaw neu wrth edrych ar ddata demograffig, bydd o leiaf un siaradwr Cymraeg yn y tîm arolygu.
- 2.4 Byddwn yn mynd ati i gael adborth ar y modd y darperir ein gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg gan y rheini y byddwn yn eu harolygu.

### 3 RHOI'R CYNLLUN AR WAITH

#### Arweinyddiaeth a rheoli

- 3.1 Byddwn yn gosod lefel bwysigrwydd uchel ar ein Cynllun ac yn gwneud ein gorau i'w roi ar waith yn effeithiol. Y Prif Arolygydd sy'n bennaf gyfrifol am y Cynllun, a dirprwyir y cyfrifoldeb o'i roi ar waith o ddydd i ddydd i Helen Davies, Arolygydd EM (y gellir cysylltu â hi drwy ffonio 07919 490420 neu anfon e-bost at [helen.davies@hmiprobation.gsi.gov.uk](mailto:helen.davies@hmiprobation.gsi.gov.uk)). Bydd ei dyletswyddau'n cynnwys:
- adrodd yn ôl ar y Cynllun yn rheolaidd i Julie Fox, y Prif Arolygydd Cynorthwyol, sy'n atebol i'r Prif Arolygydd
  - sicrhau bod pob aelod newydd o staff yn gallu cael gafael ar gopi o'r Cynllun a'u bod yn gyfarwydd ag ef
  - trefnu hyfforddiant priodol ar gyfer y staff
  - bod yn bwynt cyswllt cyntaf ac yn ymgynghorydd i staff, i asiantaethau allanol ac i'r cyhoedd, fel y bo'n briodol
  - sefydlu trefniadau monitro a gwerthuso priodol

#### Staffio a Recriwtio

- 3.2 Nid oes gan Arolygiaeth Prawf EM swyddfa yng Nghymru. Mae gennym swyddfa yn Llundain ac ym Manceinion, a bydd ein staff, sy'n cael eu recriwtio o bob rhan o Gymru a Lloegr, yn gweithio o'r naill neu'r llall o'r swyddfeydd hyn. Mae swyddi o fewn Arolygiaeth Prawf EM naill ai ar sail cyflog neu ar sail tâl yn ôl y galw. Mae ein polisi recriwtio yn cyd-fynd â'n nod benodol i fynd ati'n frwd i 'hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a materion amrywiaeth ehangach'. Dilynir proses o gystadleuaeth deg ac agored er mwyn denu'r ymgeiswyr gorau am bob swydd.
- 3.3 Ar hyn o bryd, mae ein staff yn cynnwys pum rheolwr, 20 o arolygwyr, gan gynnwys un sy'n siarad Cymraeg, pedwar o arolygwyr cynorthwyol ac 16 aelod o staff gwasanaeth cymorth, ond mae nifer y staff yn debygol o leihau yn ystod cyfnod yr adolygiad presennol o wariant. Yn ogystal, mae gennym pump arolygydd cysylltiol, gan gynnwys dau siaradwr Cymraeg, sy'n cael eu recriwtio, eu hyfforddi a'u goruchwylio mewn ffordd debyg i arolygwyr amser llawn. Mae'r arolygwyr cysylltiol hyn yn gweithio ar sail sesiynol.
- 3.4 Os yw arolygydd yn siarad Cymraeg, bydd hynny wedi'i nodi ar ei fathodyn (yn Gymraeg ac yn Saesneg)
- 3.5 Yn gyffredinol, bydd yr arolygwyr a'r aseswyr ymarfer yn gweithio ar draws Cymru a Lloegr. Mae'r tri arolygydd cysylltiol Cymraeg eu hiaith yn gweithio'n bennaf ar arolygiadau yng Nghymru.

3.6 Wrth sicrhau bod pob aelod o'r staff yn gallu cyflawni ein gwaith yn unol â'r Cynllun hwn, byddwn yn:

- pwysu a mesur a yw'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol ynteu'n ddymunol ar gyfer pob swydd, ac yn llunio'r disgrifiadau swydd yn unol â hynny,
- ystyried: natur y swydd, a pha mor aml y ceir cyswllt â'r cyhoedd yng Nghymru; ac i ba raddau y mae bod yn rhugl wrth siarad a/neu ysgrifennu Cymraeg naill ai'n sgil angenrheidiol neu ddymunol. Os yw'r gallu i siarad Cymraeg wedi'i asesu fel sgil hanfodol ar gyfer swydd, bydd datganiadau i'r wasg a hysbysiadau cyhoeddus, yn ogystal â disgrifiadau swydd, yn ddwyieithog. Byddwn yn sicrhau bod y rhain yn cael eu cyhoeddi mewn papurau newydd perthnasol, yn ôl cyngor Bwrdd yr Iaith Gymraeg,
- gwneud ein gorau i recriwtio arolygwyr profiadol sy'n meddu ar gymwysterau priodol ac sydd hefyd yn gallu cyfathrebu yn Gymraeg. Fodd bynnag, os nad yw aelod Cymraeg ei iaith o staff Arolygiaeth Prawf EM ar gael, byddwn yn sicrhau bod cyfieithwyr ar y pryd cymwys ac addas ar gael fel y bo'n briodol,
- trefnu digwyddiadau dysgu fel cyflwyniad i'r iaith Gymraeg ar gyfer pob aelod o staff sy'n debygol o weithio yng Nghymru – bydd hyfforddiant o'r fath yn cynnwys ein dyletswydd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, sef cyfarchion sylfaenol a ddefnyddir o ddydd i ddydd a sut mae ynganu enwau Cymraeg,
- rhoi arweiniad i bob aelod o staff ynghylch cyfathrebu â'r cyhoedd, sut mae ymdrin â gohebiaeth sydd wedi'i hysgrifennu yn Gymraeg, a manylion gwasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd.



## 4 WYNEB CYHOEDDUS AROLYGIAETH PRAWF EI MAWRHYDI

- 4.1 Cyn belled ag y bo modd, bydd Arolygiaeth Prawf EM yn mabwysiadu fformat dwyieithog yng Nghymru.

### **Cyhoeddiadau a datganiadau i'r wasg**

- 4.2 Byddwn yn sicrhau bod pob ffurflen a ddefnyddir gan y cyhoedd yn ddwyieithog.
- 4.3 Bydd datganiadau i'r wasg yng Nghymru yn cael eu darparu yn Gymraeg a Saesneg. Lle bo'r amserlen yn caniatáu hynny, bydd ein Harolygydd Cymraeg ei iaith yn cynnal cyfweiliadau yn yr iaith Gymraeg ar gyfer y cyfryngau.
- 4.4 Rydym yn cyhoeddi ein holl adroddiadau ar asiantaethau sy'n cael eu harolygu yng Nghymru, yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- 4.5 Mae pob adroddiad a gyhoeddir gan Arolygiaeth Prawf EM yn ddogfennau cyhoeddus, a gellir eu gweld ar ein gwefan:

**<https://www.justiceinspectrates.gov.uk/hmiprobation>**

Ceir tudalen Gymraeg ar y wefan, a gellir gweld fersiynau Cymraeg o adroddiadau diweddar a dogfennau arolygu allweddol eraill yn y fan hon hefyd.

### **Gohebu â'r cyhoedd**

- 4.6 Bydd Arolygiaeth Prawf EM yn sicrhau y bydd unrhyw ohebiaeth y mae'n ei chychwyn gyda'r cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog. Bydd hyn yn cynnwys taflenni ac unrhyw wybodaeth gyffredinol arall. Rydym hefyd am sicrhau:
- y bydd yr holl ohebiaeth yn cael ei hateb yn yr iaith y derbyniwyd hi,
  - y bydd gohebiaeth at aelodau unigol o'r cyhoedd yn cael ei hysgrifennu yn yr iaith a ddefnyddiwyd gan y sawl a fydd yn derbyn y llythyr, os yw hynny'n hysbys,
  - os nad yw dewis iaith yr unigolyn yn hysbys, y bydd y llythyr gwreiddiol yn ddwyieithog.
- 4.7 Defnyddir yr un egwyddorion wrth ymdrin â gohebiaeth dros yr e-bost. Fodd bynnag, mae'n rhaid cydnabod ei bod yn annhebygol y bydd y derbyniwydd yn gallu darllen a llunio ateb yn Gymraeg. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd y sawl sy'n derbyn y neges e-bost yn Arolygiaeth Prawf EM yn ei

hanfon i'w chyfieithu i'r Saesneg. Yna, rhoddir dewis i awdur y neges e-bost wreiddiol p'un ai a yw'n dymuno cael ateb yn ôl ar unwaith yn Saesneg, neu am aros nes gellir llunio ateb yn Gymraeg. Byddwn yn anelu at ymateb cyn pen 20 diwrnod gwaith, yn unol â'r amser ymateb a nodir yn Neddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

### **Galwadau ffôn**

- 4.8 Nid oes gan Arolygiaeth Prawf EM wasanaeth switsfwrdd yn ei swyddfeydd ym Manceinion nac yn Llundain. Felly, mae'n debygol y bydd galwadau ffôn yn mynd yn syth i linellau uniongyrchol ac yn cael eu hateb yn Saesneg. Fodd bynnag, mae Arolygiaeth Prawf EM yn sylweddoli ei bod yn ddyletswydd arni i ddarparu gwasanaeth i siaradwyr Cymraeg. Felly, rhoddir dewis i'r sawl sy'n galw barhau â'r sgwrs yn Saesneg neu ysgrifennu atom, a byddwn ninnau wedyn yn darparu ateb ysgrifenedig yn Gymraeg o fewn y targed amser a nodir uchod.

### **Cyfarfodydd â'r cyhoedd yng Nghymru**

- 4.9 Nid yw Arolygiaeth Prawf EM yn cynnal cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru na Lloegr. Fodd bynnag, oherwydd natur ein prosesau arolygu, bydd angen i ni o bryd i'w gilydd gyfarfod ag aelodau o'r cyhoedd sy'n ymwneud â chyrrff statudol a gwirfoddol sy'n gweithio mewn partneriaeth a gwasanaeth prawf Thimau Troseddwyr Ifanc. Mae'n bosib y byddwn hefyd yn cyfarfod â'r rheini sy'n derbyn y gwasanaethau hyn, a allai gynnwys unigolion dan oruchwyliaeth, dioddefwyr a rhieni/gofalwyr.
- 4.10 Os byddwn yn cynnal digwyddiadau yng Nghymru, byddant yn cael cyhoeddusrwydd yn y Gymraeg a'r Saesneg, a byddwn yn dweud yn glir y bydd croeso i bobl gyfrannu yn y ddwy iaith. Er mwyn cynorthwyo â'r trefniadau, byddwn yn gofyn i unrhyw un sy'n bwriadu mynychu roi gwybod i ni o leiaf bythefnos ymlaen llaw ai yn Gymraeg ynteu Saesneg y maent yn bwriadu cyfrannu.
- 4.11 Pan fyddwn yn gwybod mai Cymraeg yw'r dewis iaith, byddwn yn sicrhau bod un o'n harolygwyr Cymraeg ei iaith yn bresennol, neu'n darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. Os bydd unigolyn neu fudiad yn mynychu cyfarfod heb roi rhybudd ymlaen llaw, byddwn yn hwyluso defnyddio'r Gymraeg pryd bynnag y bo modd, e.e. os yw arolygydd Cymraeg ei iaith hefyd yn bresennol.
- 4.12 Pan fydd modd defnyddio gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfod, bydd arwydd yn dangos bod croeso i ymwelwyr siarad yn Gymraeg, a bydd cadeirydd y cyfarfod yn cyhoeddi bod y gwasanaeth ar gael.
- 4.13 Rhoddir cyfarwyddyd i'r staff ynghylch y drefn y dylid ei dilyn wrth drefnu cyfarfodydd yng Nghymru gydag unigolion neu grwpiau y gwyddom ei bod

---

yn well ganddynt gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg, neu'r rheini na wyddom beth yw eu dewis iaith.

## 5 RHOI CYHOEDDUSRWYDD I'R CYNLLUN

5.1 Bydd Arolygiaeth Prawf EM yn sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'n Cynllun ac yn:

- cyhoeddi'r fersiwn Gymraeg a'r fersiwn Saesneg ar ein gwefan,
- anfon copi i bob asiantaeth yng Nghymru a arolygir gennym,
- sicrhau bod cyrff cyhoeddus ac aelodau o'r cyhoedd yr ydym mewn cysylltiad â nhw yn gwybod am ein Cynllun,
- cyfeirio at ei ddatblygiad yn ein cynllun blynyddol,
- cyhoeddi'r adolygiad o'r Cynllun ar ein gwefan,
- cyhoeddi ein Hadroddiad Blynyddol yn Gymraeg ar ein gwefan.

## 6 MONITRO AC ADOLYGU'R CYNLLUN

- 6.1 Wrth sicrhau egwyddor cydraddoldeb i'r Gymraeg a'r Saesneg yn ein harolygiadau, bydd y Prif Arolygydd Cynorthwyol sy'n gyfrifol am y Cynllun hwn yn gyfrifol am ei roi ar waith ac am ei fonitro. Bydd Helen Davies, Arolygydd EM, yn bwynt cyswllt cyntaf ac yn ymgynghorydd i staff ac aelodau'r cyhoedd.
- 6.2 Byddwn yn monitro ein perfformiad wrth fodloni'r ymrwymadau a wneir yn y Cynllun ac yn cofnodi'r galw am wasanaethau iaith Gymraeg, gan gynnwys unrhyw alw am wasanaethau sy'n mynd y tu hwnt i'n hymrwymadau. Os nad ydym yn bodloni'r safonau a gyhoeddwyd, byddwn yn egluro'r camau y bwriadwn eu cymryd i wella'r sefyllfa.
- 6.3 Bydd Arolygiaeth Prawf EM yn llunio adolygiad blynyddol yn seiliedig ar y broses fonitro uchod. Bydd yr adolygiad yn cynnwys gwybodaeth ynghylch:
- Cynllunio a chyflwyno'r gwasanaeth
  - Delwedd gyhoeddus y sefydliad
  - Cyfathrebu ehangach
  - Hyfforddi a datblygu staff
  - Trefniadau i'r dyfodol
- 6.4 Anfonir copi o'r adolygiad i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

## 7 CWYNIION

- 7.1 Ymdrinnir ag unrhyw gŵyn ynghylch arolygiadau Arolygiaeth Prawf EM yn unol â gweithdrefn gwynion gyhoeddedig Arolygiaeth Prawf EM, sydd wedi'i chyfieithu i'r Gymraeg. Yn y lle cyntaf, gwahoddir aelodau'r cyhoedd i gysylltu â:

Prif Arolygydd Prawf EM  
Arolygiaeth Prawf EM  
1st Floor, Manchester Civil Justice Centre  
1 Bridge Street West  
Manchester M3 3FX

Rhif ffôn: 0161 240 5336

---

## **8 AMSERLEN AR GYFER GWEITHREDU**

- 8.1 Ceir amserlen ar gyfer bodloni pob un o'r ymrwymadau a gynhwysir yn y Cynllun hwn yn Atodiad A.

## Atodiad A

Ymrwymiad	Dyddiad targed
Penodi swyddog cyfrifol	O'r dyddiad cymeradwyo
Hysbysebu'r Cynllun i'r holl staff	O'r dyddiad cymeradwyo
Cyhoeddi adroddiadau a deunydd yn unol â'r Cynllun	Parhaus ac o'r dyddiad cymeradwyo
Rhoi gwybod i'r holl asiantaethau y byddwn yn eu harolygu a'r holl Arolygiaethau y byddwn yn gweithio ar y cyd â hwy bod cynllun diwygiedig wedi cael ei gymeradwyo	Cyn pen tri mis o'i gymeradwyo
Cyhoeddi ar ein gwefan	Cyn pen tri mis o'i lansio
Hyfforddi staff	Cyn pen 12 mis o'i gymeradwyo
Recriwtio	Wrth iddynt godi o'r dyddiad cymeradwyo ymlaen
Cyhoeddi gwybodaeth am y Cynllun i'r cyhoedd	Cyn pen chwe mis o'i lansio
Monitro'r Cynllun	O adeg lansio'r Cynllun
Adolygiad ac Adroddiad Blynyddol 1af ynglŷn â gweithredu'r Cynllun	Cyn pen blwyddyn ar ôl lansio'r Cynllun